# Ymateb i Graffu'r Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27

## Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chyllideb Ddrafft Amlinellol ar gyfer 2026-27 ar 14 Hydref 2025 a'r Gyllideb Ddrafft Fanwl ar 3 Tachwedd 2025.

Ar 15 Rhagfyr, cyhoeddodd y Pwyllgor Cyllid ei adroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2026-27, a oedd yn gwneud 33 o argymhellion. Roedd 32 o'r rhain ar gyfer Llywodraeth Cymru ac roedd un ar gyfer y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

Mae'r ddogfen hon yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hynny.

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ........ 3**

**2. Proses y Gyllideb ac Ymgysylltu ........ 4**

**3. Y Cyd-destun Economaidd ........ 5**

**4. Ysgogiadau Cyllidol ........ 7**

**5. Cyflwyno'r Gyllideb a Mesur Effaith ........ 12**

**6. Atal a Chymorth gyda Chostau Byw ........ 16**

**7. Cynhyrchiant ........ 20**

# 1. Cyflwyniad

Hoffwn ddiolch i aelodau Pwyllgor Cyllid y Senedd am eu gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru. Roedd yn bleser gennyf fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor ar 16 Hydref 2025, 3 Rhagfyr 2025 a 21 Ionawr 2026 i drafod y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol.

Mae adroddiad y Pwyllgor, ac adroddiadau Pwyllgorau eraill y Senedd, wedi llywio'r broses o ddatblygu Cyllideb Derfynol 2026-27 a gyhoeddwyd ar 20 Ionawr 2026-27. Rwy'n ddiolchgar am y gwaith craffu gofalus ac adeiladol sydd wedi helpu i sicrhau Cyllideb Derfynol sy'n gwneud gwahaniaeth i bobl Cymru ac sy'n golygu y gallwn wneud y defnydd gorau posibl o'r cyllid sydd ar gael.

Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad isod, gan adeiladu ar y dystiolaeth a roddais yn ystod y cyfarfodydd. At hynny, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion barhau i ymgysylltu â Chlerc y Pwyllgor Cyllid er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion hyn.

# 2. Proses y Gyllideb ac Ymgysylltu

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod cadw at broses dau gam y gyllideb eleni wedi gwella'r gwaith craffu strategol ac eglurder cynnar, er gwaethaf y peryglon o addasiadau hwyr a achosir gan Gyllideb hwyr yr Hydref yn y DU, ac mae'n argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn gwerthuso sut y mae'r dull hwn wedi gweithio o safbwynt Llywodraeth Cymru a rhannu unrhyw ganfyddiadau gyda'r Pwyllgor yn fuan ar ôl y ddadl ar y Gyllideb Derfynol er mwyn cyfleu'r hyn a ddysgwyd ac i fod yn sail i ystyried y gwaith o graffu ar y gyllideb ac unrhyw newidiadau i Brotocol Proses y Gyllideb yn y Seithfed Senedd.

Ymateb: Derbyn

Roedd yn bleser gennym gael dychwelyd at broses dau gam ar gyfer y gyllideb, fel y'i hamlinellwyd ym Mhrotocol y Gyllideb, ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2026-27. Ni fu'n bosibl yn ystod y blynyddoedd diwethaf am fod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ein setliad yn hwyr yn ystod tymor yr hydref. Rydym yn cydnabod bod yr eglurder cynnar hwn wedi cael effaith gadarnhaol ar y broses graffu.

Mae Cyllideb Hydref y DU, a gyhoeddwyd rhwng ein Cyllideb Ddrafft a'n Cyllideb Derfynol, wedi arwain at fwy o newidiadau nag y byddai wedi bod eu hangen fel arfer, ond mae hynny'n rhywbeth roeddem yn ei ddisgwyl ac wedi'i gynnwys yn y broses.

Byddwn yn myfyrio ar y broses eleni, yn enwedig yr elfen dau gam, wrth inni ystyried sut i ymdrin â'r Gyllideb y flwyddyn nesaf.

# 3. Y Cyd-destun Economaidd

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddod i gyfarfod o'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2026 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y bydd y £237 miliwn ychwanegol a dderbyniwyd yn sgil Cyllideb Hydref y DU a'r rhagolygon diwygiedig a'r £380 miliwn a gedwir fel arian heb ei ddyrannu yn cael eu dyrannu ar gyfer 2026-27, yn ogystal ag effaith Cytundeb y Gyllideb a gyhoeddwyd ar 9 Rhagfyr 2025.

Ymateb: Derbyn

Roedd yn bleser gennyf ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid ddydd Mercher 21 Ionawr 2026 i roi diweddariad ar y defnydd o'r cyllid ychwanegol ac arian heb ei ddyrannu a nodwyd yn y Gyllideb Derfynol a gyhoeddwyd ar 20 Ionawr, ac i drafod effaith Cytundeb y Gyllideb a gyhoeddwyd ar 9 Rhagfyr 2025.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried amserlennu dadl hirach ar gyfer y ddadl ar y Gyllideb Derfynol o ystyried y gwahaniaethau sylweddol disgwyliedig mewn dyraniadau rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol eleni.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i estyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol o 60 munud i 90 munud. Adlewyrchwyd hyn yn y Datganiad Busnes a gyhoeddwyd ar 13 Ionawr 2026.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, fel rhan o'r ystyriaethau ynghylch sut y gwneir dyraniadau ar gam y Gyllideb Derfynol, y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gynnal asesiad o'r pwysau yn sgil chwyddiant sy'n wynebu gwahanol feysydd yn y sectorau cyhoeddus, yn ogystal â ffactorau galw, a chyflwyno'r canfyddiadau hynny ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol.

Ymateb: Derbyn

Gwnaethom ystyried y mater a godwyd yn ystod y broses graffu ynglŷn â'r tebygolrwydd o gynnydd yn y rhagolwg chwyddiant yn 2026-27. Diweddarodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol y rhagolygon, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd, gan ddangos y byddai chwyddiant yn cynyddu i 2.2% ac y byddai twf cyflog yn cynyddu i 3.2%. Mae'r Gyllideb Derfynol yn adlewyrchu hyn, gyda chynnydd ar gyfer pob Prif Grŵp Gwariant sy'n ymdrin â'r gwahaniaeth rhwng rhagolwg mis

Mawrth a rhagolwg mis Tachwedd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Rydym wedi parhau i adolygu'r pwysau a'r galw a wynebir gan feysydd penodol mewn gwasanaethau cyhoeddus, megis y GIG, gofal cymdeithasol ac addysg, ac mae'r Gyllideb Derfynol yn cynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer y meysydd hyn, yn ogystal â dyraniadau ychwanegol wedi'u targedu mewn nifer bach o feysydd eraill.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru asesu effaith twf cyflog a chwyddiant sy'n uwch na'r rhagolygon ar ragdybiaethau cyflogau'r sector cyhoeddus sy'n sail i'r Gyllideb Ddrafft, nodi opsiynau ar gyfer lliniaru'r pwysau hyn, a chyflwyno'r canfyddiadau hynny ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol.

Ymateb: Derbyn

Rydym wedi ystyried y cynnydd mewn rhagolygon o dwf cyflog a chwyddiant yn 2026-27 ac wedi dyrannu cyllid ychwanegol i bob adran er mwyn lliniaru'r pwysau hyn fel rhan o'r Gyllideb Derfynol.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet barhau i fynd ar drywydd diwygio Fformiwla Barnett drwy'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed erbyn i'r Ail Gyllideb Atodol gael ei gosod ar 24 Chwefror 2026.

Ymateb: Derbyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dadlau ers amser maith dros ddiwygiadau sylfaenol i system Barnett. Bydd unrhyw system newydd yn lle fformiwla Barnett yn newid sylweddol a fyddai hefyd yn gofyn am gydsyniad y pedair gwlad a chytundeb cyllidol newydd a fyddai'n cael ei oruchwylio a'i weithredu gan gorff sy'n annibynnol ar Lywodraeth y DU.

Mae parodrwydd i gael y system bresennol i weithio'n well i'w gwneud yn fwy tryloyw a dilys. Mae swyddogion o'r pedair gwlad yn gweithio ar y cyd i nodi a chytuno ar gyfres o fesurau ymarferol y gellid eu cymryd i wella'r ffordd y mae system Barnett yn gweithredu. Bydd papur yn cael ei baratoi ar gyfer Gweinidogion Cyllid y DU yn y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid nesaf. Bydd yr wybodaeth ddiweddaraf ar gael i'r Pwyllgor.

# 4. Ysgogiadau Cyllidol

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol barhau i gynhyrchu a datblygu allbynnau sy'n helpu i feithrin dealltwriaeth o effaith trethiant datganoledig ar gyllidebau Llywodraeth Cymru, megis y dadansoddiad o newidiadau yn sefyllfa treth net Cymru a gyhoeddwyd fel rhan o ragolygon treth a gwariant datganoledig eleni.

Ymateb: Bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn ymateb yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Cyllid ar y mater hwn.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar fanylion o fewn Bil Cyllid y DU sy'n ymwneud â chyflwyno treth incwm eiddo yng Nghymru, gan gynnwys amserlenni cysylltiedig i alluogi ystyriaeth gan y Senedd, cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Ymateb: Derbyn

Cyfarfu Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ag Ysgrifennydd Siecr y Trysorlys ar 15 Rhagfyr 2025 ac roedd y cyfarfod hwn yn cynnwys trafodaethau am y newidiadau i drethu incwm eiddo. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cyllid (Rhif 2) gerbron y Senedd ar 16 Rhagfyr 2025 a bydd y Senedd yn trafod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil hwn ar 3 Chwefror 2026.

Mae'r Bil Cyllid (Rhif 2) yn diwygio'r cyfraddau treth sy'n gymwys i incwm eiddo o 6 Ebrill 2027 ymlaen. Os bydd y Senedd yn cymeradwyo'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gallai'r gallu i osod cyfraddau gwahanol i Gymru mewn perthynas ag incwm eiddo gael ei arfer ar gyfer y flwyddyn dreth sy'n dechrau 6 Ebrill 2027 fan gynharaf.

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu manylion clir am y mesurau penodol yn y Gyllideb Ddrafft i gefnogi'r sectorau hamdden a lletygarwch ac asesiad o'r graddau y bydd y rhain yn lliniaru effaith rhyddhad Ardrethi Annomestig manwerthu, lletygarwch a hamdden, sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2026, erbyn i'r Gyllideb Derfynol gael ei gosod.

Ymateb: Derbyn

Mae llawer o fusnesau yn y sector lletygarwch a'r sector hamdden yn cael budd o'n rhyddhadau parhaol rhag ardrethi annomestig, sy'n werth £250m y flwyddyn ar hyn o bryd ac sy'n cael eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn

parhau. Mae bron hanner yr holl dalwyr ardrethi, gan gynnwys busnesau bach ledled Cymru, yn cael rhyddhad llawn. Mae cynrychiolwyr o'r sector wedi amcangyfrif bod tua dau eiddo lletygarwch o bob tri yng Nghymru yn denu rhyddhad llawn, oherwydd eu gwerthoedd ardrethol isel.

Bydd eraill yn cael budd o luosydd safonol ar gyfer 2026-27, sy'n 12% yn is na'r lluosydd cyfredol, o ganlyniad i ailbrisiad 2026. Mae hyn yn dilyn dyraniadau sylweddol o gyllideb Llywodraeth Cymru i roi cap ar y lluosydd drwy gydol tymor y Senedd. Mae ein penderfyniadau i rewi neu gyfyngu ar dwf chwyddiannol yn y lluosydd, o 2021-22 i 2025-26, yn arwain at gost gylchol sydd eisoes wedi cyrraedd cyfanswm o fwy na £500m a bydd yn parhau i dyfu yn y dyfodol.

Mae busnesau nad ydynt yn denu rhyddhad llawn wedi bod yn pontio'n ôl i'w rhwymedigaethau statudol arferol dros sawl blwyddyn, wrth i lefel y cymorth ychwanegol dros dro gael ei lleihau'n raddol. Rhoddwyd rhyddhad llawn yn ystod y blynyddoedd pan oedd cyfyngiadau'r pandemig ar waith, pan oedd busnesau cymwys yn cael eu gorfodi i gau neu gyfyngu ar eu gweithrediadau. Gosodwyd rhyddhad ar 75% dair blynedd yn ôl, pan oedd chwyddiant uchel iawn yn creu cyd-destun anodd o ran parhad adferiad, a 40% yn ystod y ddwy flynedd fwyaf diweddar.

Ers 2020-21, rydym wedi dyrannu mwy na £1bn o gymorth dros dro dros chwe blynedd yn olynol i fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch, sy'n cydnabod y pwysau economaidd y maent wedi eu hwynebu. Nid yw'r cymorth ychwanegol sylweddol hwn yn bodoli fel mater o drefn ac ni fwriadwyd erioed iddo barhau am gyfnod amhenodol. Cadarnhaodd y datganiad ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26 mai hon fyddai blwyddyn olaf y cymorth dros dro, fel y gallai busnesau baratoi i ailgydio yn eu rhwymedigaethau statudol arferol i dalu ardrethi annomestig.

Mae Llywodraeth y DU wedi awgrymu y bydd yn cyflwyno cymorth ychwanegol i dafarndai yn Lloegr, ar ôl newid mewn polisi o'r hyn a gynhwyswyd yng Nghyllideb y DU ym mis Tachwedd. Ar adeg cwblhau'r ymateb hwn, nid oes unrhyw fanylion pellach ar gael am y cymorth hwn er mwyn inni allu ei ystyried fel rhan o'r Gyllideb Derfynol. Fodd bynnag, unwaith y bydd y manylion ar gael, byddwn yn gallu ystyried a oes angen cymorth ychwanegol – y tu hwnt i'r cynlluniau rhyddhad parhaol sydd eisoes ar gael i'r sector tafarndai a lletygarwch ehangach – yng Nghymru.

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet rannu gyda'r Pwyllgor y data a gasglwyd i asesu effeithiolrwydd y lluosydd gwahaniaethol newydd ar gyfer manwerthu a'r asesiad ynghylch a yw'n briodol ymestyn hyn i'r sector hamdden a lletygarwch, a darparu'r wybodaeth

ddiweddaraf am y cynnydd ar y mesurau hyn erbyn i'r Ail Gyllideb Atodol 2025-26 gael ei gosod ar 24 Chwefror.

Ymateb: Gwrthod

Gan na fydd y lluosydd newydd ar gyfer manwerthu yn weithredol tan 1 Ebrill 2026, ni fydd unrhyw dystiolaeth ar gael i asesu ei effeithiolrwydd yn ystod tymor presennol y Senedd. Ni fyddai'n briodol i Lywodraeth bresennol Cymru wneud unrhyw ymrwymiad pellach y tu hwnt i'r trefniadau monitro ôl-weithredol arferol a adlewyrchwyd yn yr asesiadau effaith sy'n ymwneud â'r polisi hwn. Mater i Lywodraeth nesaf Cymru fydd unrhyw newidiadau mewn polisi mewn perthynas â lluosyddion gwahaniaethol.

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet weithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod data ar gael ar lefel Cymru er mwyn sicrhau y gellir mesur a monitro perfformiad economaidd ac effaith polisïau allweddol, ac yn darparu adroddiad cynnydd ar y mater hwn erbyn i'r Ail Gyllideb Atodol 2025-26 gael ei gosod ar 24 Chwefror 2026.

Ymateb: Derbyn

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r SYG i sicrhau bod ansawdd ystadegau i Gymru yn ystyriaeth allweddol yng Nghynlluniau Gwella Ystadegau Economaidd ac Arolygon y SYG, sy'n cydnabod y risg o fylchau mewn data ar lefel Cymru. Mae dadansoddwyr Llywodraeth Cymru wedi nodi ein gofynion allweddol â blaenoriaeth, gan gynnwys: gwella'r ffordd y caiff samplau eu llunio a'r cwmpas ar gyfer arolygon o fusnesau, gan ddiogelu ansawdd a gwella allbynnau is-genedlaethol, yn enwedig ar gyfer yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, sy'n hollbwysig ar gyfer y farchnad lafur, nodweddion y boblogaeth a'r data ar y Gymraeg, ac o ran monitro dangosyddion llesiant cenedlaethol statudol.

Bydd y blaenoriaethau hyn yn parhau i gael eu trafod yn rheolaidd drwy sianeli llywodraethu ac ymgysylltu sefydledig, gan gynnwys gydag uwch-swyddogion yn y SYG ac mewn uwch-fforymau ystadegol sy'n rhychwantu'r DU. Er mwyn atgyfnerthu'r pwyntiau hyn, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Parhaol at Ysgrifennydd Parhaol y SYG ym mis Rhagfyr 2025 yn croesawu'r gwaith y mae'r SYG yn ei wneud drwy ei chynlluniau gwella Ystadegau Economaidd ac Arolygon ond yn tanlinellu pwysigrwydd yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a'r angen am ystyriaeth lawn o ofynion datganoledig wrth i'r SYG flaenoriaethu ei gwaith.

Bydd modd rhoi diweddariad ar gynnydd erbyn yr Ail Gyllideb Atodol.

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gael eglurhad gan Lywodraeth y DU ynghylch sut y cymhwyswyd cynnydd o 10 y cant i'r cynnydd mewn terfynau cyffredinol a blynyddol ar gyfer benthyca cyfalaf a Chronfa Wrth Gefn Cymru, a darparu adroddiad cynnydd erbyn i'r Ail Gyllideb Atodol 2025-26 gael ei gosod ar 24 Chwefror 2026.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio gwella ei hyblygrwydd cyllidol ers amser maith. Cyflwynodd Cyllideb Hydref y DU ym mis Tachwedd 2025 rai gwelliannau cymharol fach.

Yn 2026-27, bydd terfynau benthyca cyfalaf blynyddol a chronnol Llywodraeth Cymru, terfyn cyffredinol Cronfeydd Wrth Gefn Cymru a therfynau hawlio blynyddol Terfyn Gwariant Adrannol Adnoddau a Therfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf i gyd yn cynyddu 10%. O 2027-28, bydd pob un o'r terfynau hynny yn cael eu huwchraddio'n flynyddol yn unol â chwyddiant er mwyn cynnal gwerth gwirioneddol y terfynau dros amser. Hefyd, bydd terfynau hawlio'r Cronfeydd Wrth Gefn yn cael eu hepgor dros dro yn 2026-27.

Mae penderfyniad Trysorlys EF i gynyddu terfynau 10% ac yna'u huwchraddio'n flynyddol yn golygu bod y cynnydd yn unol yn fras â'r dull gweithredu y cytunwyd arno â Llywodraeth yr Alban lle mae terfynau wedi cael eu cynyddu yn ôl chwyddiant ers 2023-24.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau gwelliannau pellach o ran ein hyblygrwydd cyllidol, gan gynnwys mynediad parhaol at y Gronfa Wrth Gefn Cymru lawn.

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sydd wedi'i gwblhau, sydd ar y gweill neu y bwriedir ei gwblhau yn nhymor y Senedd hon i gefnogi'r asesiad o'r defnydd o offer rheoli cyllideb Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer casglu data i gefnogi'r gwaith hwn, a darparu adroddiad cynnydd ar y mater hwn erbyn i'r Ail Gyllideb Atodol 2025-26 gael ei gosod ar 24 Chwefror 2026.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae'r newidiadau a gyhoeddwyd fel rhan o Gyllideb yr Hydref mewn perthynas â therfynau benthyca cyfalaf blynyddol a chronnol, y terfyn cyffredinol ar gyfer Cronfa Wrth Gefn Cymru a therfynau hawlio refeniw a chyfalaf blynyddol yn gam i'r cyfeiriad cywir i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rwy'n bryderus o hyd bod yr ysgogiadau cyllidol sydd ar gael ar hyn o bryd i Lywodraeth Cymru yn annigonol mewn gwirionedd i reoli lefel yr ansicrwydd ynghylch rheoli'r gyllideb yn ystod y flwyddyn.

Mae codi'r terfynau hawlio ar Gronfa Wrth Gefn Cymru eleni wedi bod yn fuddiol iawn, a chroesawaf y penderfyniad i gael gwared ar derfynau ar fynediad at y Gronfa Wrth Gefn am flwyddyn arall yn 2026-27 a fydd yn cefnogi gwaith cynllunio. Fodd bynnag, hoffwn weld cytundeb ynglŷn â'r hyblygrwydd hwn yn barhaol.

Mae llawer o'r penderfyniadau ynglŷn â rheoli ein sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn yn cael eu gwneud hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol, felly ni fyddai adroddiad llawn yn bosibl cyn gosod Ail Gyllideb Atodol 2025-26.

Yn y cyfamser, ceir gwybodaeth am alldro 2024-25 sy'n cynnwys y defnydd o Gronfa Wrth Gefn Cymru yma.

# 5. Cyflwyno'r Gyllideb a Mesur Effaith

**Argymhelliad 14.** Gan fod y Gyllideb hon yn cael ei chyflwyno fel un niwtral yn wleidyddol, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn ailfframio'r farn hon yn ei ddogfen yn esbonio'r Gyllideb Derfynol er mwyn gwella tryloywder a sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall yn glir y sail resymegol i'r dewisiadau cyllidebol hyn.

Ymateb: Derbyn

Y Gyllideb Ddrafft oedd cam cyntaf y broses. Ychydig iawn o newidiadau cyllidebol a gyflwynodd, heb unrhyw bolisïau newydd a chronfa o arian heb ei ddyrannu. Gwnaed hynny mewn ffordd agored a thryloyw er mwyn rhoi cyfle i gael trafodaethau adeiladol â phleidiau gwleidyddol eraill er mwyn cytuno ar lwybr tuag at Gyllideb y gallai'r Senedd gytuno arni.

Cyhoeddwyd cytundeb â Phlaid Cymru ar y Gyllideb ar 9 Rhagfyr, a ddyrannodd tua £300m o gyllid adnoddau ychwanegol. Bydd y cyllid ychwanegol yn cael ei ddyrannu i iechyd a gofal cymdeithasol ac i lywodraeth leol, sef y ddau brif faes lle cafwyd pwysau a nodwyd yn ystod y broses graffu ac wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r cytundeb gwleidyddol hwn a'r cyllid sy'n cael ei ddyrannu o ganlyniad iddo wedi'u nodi'n glir yn nogfennau ein Cyllideb Derfynol. Mae'r manylion ynghylch sut a pham y gwnaed y penderfyniadau yn y Gyllideb Derfynol wedi'u nodi yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA) ynghyd â'u heffeithiau cysylltiedig a'r ystyriaethau tymor hwy.

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau sut y bydd yn dangos ei bod wedi cymhwyso'r pum ffordd o weithio yn ei phroses o osod cyllideb. Hefyd, dylai weithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar y dull gorau o asesu a chyflwyno hyn, a darparu diweddariad ar gynnydd erbyn i'r Ail Gyllideb Atodol 2025-26 gael ei gosod ar 24 Chwefror 2026.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn parhau i fod yn un o sylfeini Strategaeth Gyllidebol Llywodraeth Cymru.

Cyn bod unrhyw benderfyniadau ar wariant yn cael eu hystyried yn y Gyllideb Ddrafft, ystyrir y pum ffordd o weithio fel rhan o broses yr Asesiad Effaith Integredig, a wneir gan Ysgrifenyddion Cabinet ar gam cynnar wrth i bolisïau a rhaglenni gael eu datblygu.

Yn dilyn adolygiad o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA) yn 2025, mae cyfleoedd i asesu ymhellach y ffordd y cymhwysir y pum ffordd o weithio wedi cael eu hymgorffori mewn proses fwy cydweithredol ac iteraidd ar gyfer y SIIA, a fydd yn cael ei nodi yn y SIIA terfynol a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol.

Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cyfle i weithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i fyfyrio ar newidiadau y gellid eu gwneud i wella'r broses ymhellach. Bwriadwn i hyn fod yn rhan o'n paratoadau ar gyfer Cyllideb 2027-28 er mwyn rhoi digon o amser i fyfyrio ac adeiladu ar y gwelliannau sydd wedi cael eu gwneud ar gyfer Cyllideb 2026-27.

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu dull cyson o olrhain a chyhoeddi sut y mae'n cyflawni ac yn perfformio yn erbyn y saith nod llesiant a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu dull cyson o olrhain a chyhoeddi pa gynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn y saith nod llesiant.

Mae adroddiad Llesiant Cymru yn gyhoeddiad blynyddol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n rhoi trosolwg ar lefel genedlaethol o gynnydd tuag at y saith nod llesiant. Nid yw'n asesiad o gyrff cyhoeddus unigol ond mae'n adlewyrchu cynnydd ar y cyd ledled Cymru. Er mwyn cefnogi hyn, mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi set o ddangosyddion cenedlaethol. Defnyddir y dangosyddion hyn i fesur cynnydd tuag at y nodau Llesiant a nhw yw'r brif sylfaen dystiolaeth ar gyfer adroddiad Llesiant Cymru. Defnyddir dangosyddion y Ddeddf i lywio penderfyniadau cyllidebol a datblygu polisïau a strategaethau allweddol ym mhob rhan o'r Llywodraeth.

Hefyd, mae Gweinidogion Cymru yn pennu ac yn cyhoeddi amcanion llesiant sydd â'r nod o sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud cymaint o gyfraniad â phosibl tuag at gyflawni pob un o'r saith nod llesiant. Drwy Adroddiad Blynyddol y Rhaglen Lywodraethu, caiff cynnydd tuag at yr amcanion llesiant ei adolygu a'i gyhoeddi bob blwyddyn.

**Argymhelliad 17.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i werthuso'r dogfennau y mae'n eu cynhyrchu ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft er mwyn asesu eu heffaith a'i gwneud mor syml â phosibl i randdeiliaid nodi sut y mae penderfyniadau cyllidebol yn cyd-fynd â nodau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n ddiwyd gyda Phwyllgorau Cyllid olynol i wella'r ffordd rydym yn cyflwyno gwybodaeth gyllidebol yn y ffordd fwyaf priodol a thryloyw. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at baratoi'r gyfres gynhwysfawr o ddogfennau a gyhoeddwn fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft ac yn sicrhau ein bod yn rhoi cyfrif manwl o benderfyniadau Llywodraeth Cymru a sut maent yn cyd-fynd â'n nodau a'n huchelgeisiau.

Mae'r gyfres o ddogfennau a'u ffocws yn newid fel y bo'n briodol er mwyn adlewyrchu sylwadau gan Bwyllgorau'r Senedd a'n rhanddeiliaid. Er enghraifft, wrth baratoi Cyllideb Ddrafft 2026-27 datblygwyd y broses o gyhoeddi Adroddiadau ar y Gyllideb Ddrafft ar y cam amlinellol a'r cam manwl, a gyflwynodd esboniad o benderfyniadau cyllidebol ar y ddau gam. Rydym hefyd wedi mireinio ymhellach y tablau sy'n cael eu cyhoeddi i gefnogi ein cynlluniau gwariant, a thablau Llinell Wariant yn y Gyllideb, er mwyn eu gwneud mor syml â phosibl.

Mae'r newidiadau hyn yn adeiladu ar ychwanegiadau cynharach at ddogfennau sydd bellach yn nodwedd reolaidd ar ein pecyn Cyllidebol. Mae dogfennau a ychwanegwyd at y ddogfennaeth safonol yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn cynnwys Cynllun Gwella'r Gyllideb, yr Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru, Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru a'r pum adroddiad cipolwg pwysig ategol, y Dadansoddiad Dosbarthiadol o Wariant Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru a'r penderfyniad i fynd yn ôl at gyhoeddi cynlluniau ar lefel Llinellau Gwariant yn y Gyllideb yn hytrach na Chamau Gweithredu yn y Gyllideb, sy'n llai manwl.

**Argymhelliad 18.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu gwaith y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb ac yn gwerthuso ei rôl a'i effeithiolrwydd yn y broses ehangach o wneud penderfyniadau ar y gyllideb ac yn ystyried unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol i wella'i ffyrdd o weithio.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal nifer o adolygiadau o arferion a grwpiau cynghori presennol cyn diwedd tymor y Senedd, gan gynnwys adolygu'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb. Bydd yr adolygiad yn cyflwyno opsiynau ar gyfer dyfodol y grŵp i'w hystyried gan y Llywodraeth newydd. Bydd yr adolygiad yn ystyried aelodaeth y grŵp a'i effeithiolrwydd, ei ddylanwad a'i effaith o ran cyflawni ei gylch gwaith, sef: 'rhoi cyngor, adborth a thystiolaeth o safbwynt cydraddoldebau a chynhwysiant i Lywodraeth Cymru er

mwyn sicrhau bod prosesau'r gyllideb a threth yn gwella yn y tymor hwy er mwyn alinio cyllid a chanlyniadau yn well'.

# 6. Atal a Chymorth gyda Chostau Byw

**Argymhelliad 19.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth i esbonio sut y mae wedi ymdrin â buddsoddi mewn gwariant ataliol yn y Gyllideb Ddrafft, yn amlinellu sut y mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg yn sbarduno diwylliant ataliol drwy ddyraniadau cyllideb, ac yn cynnwys diweddariad ar gynnydd ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod gwerth gwariant ataliol fel modd i wella canlyniadau hirdymor a lleihau'r galw am wasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol. Mae'r gydnabyddiaeth o werth gwariant ataliol yn rhan annatod o'n broses gyllidebol ac mae wedi'i hadlewyrchu yn y dystiolaeth a gyflwynwyd yn nogfennaeth y Gyllideb Ddrafft a'r SIIA.

Mae'r SIIA yn nodi sut mae penderfyniadau cyllidebol yn cyd-fynd â'r pum ffordd o weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys atal a meddwl hirdymor. Mae'n tynnu sylw at enghreifftiau lle mae'r dyraniadau wedi'u llunio i osgoi costau yn y dyfodol a gwella gwydnwch, megis buddsoddi mewn gofal cymdeithasol, gofal plant, diwygiadau addysg, a gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd.

Yn yr un modd, mae Adroddiad y Gyllideb yn esbonio sut mae sefydlogrwydd a buddsoddi wedi'i dargedu yn cefnogi dulliau ataliol mewn portffolios.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar y gwaith hwn a rhoddwyd mwy o eglurder gennym yn y Gyllideb Derfynol. Mae hyn yn cynnwys diweddariad ar gynnydd ynglŷn â sut mae egwyddorion ataliol wedi llywio dyraniadau a sut rydym yn sbarduno diwylliant ataliol drwy ein strategaeth gyllidebol.

**Argymhelliad 20.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gwaith i fapio gwariant ataliol o fewn adrannau'r llywodraeth ac yn darparu diweddariad ar gynnydd ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod manteision posibl deall a mapio gwariant ataliol fel rhan o'n hymrwymiad i feddwl hirdymor a'r pum ffordd o weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae ein dull gweithredu presennol yn ymgorffori egwyddorion ataliol ym mhroses y gyllideb a'r Asesiad

Effaith Integredig Strategol, sy'n nodi sut mae dyraniadau yn cyfrannu at atal a gwydnwch.

Er bod gwaith wedi cael ei wneud i gryfhau'r sylfaen dystiolaeth a thynnu sylw at fesurau ataliol yn y Gyllideb Ddrafft a'r Asesiad Effaith Integredig Strategol, mae'r gwaith o fapio gwariant ataliol mewn ffordd gyson a chynhwysfawr ym mhob adran yn gymhleth ac yn datblygu. Byddwn yn parhau i ystyried opsiynau ar gyfer gwella tryloywder a phrosesau adrodd yn y maes hwn.

Llywodraeth yn y dyfodol fydd yn penderfynu ar y ffordd orau o barhau â'r gwaith hwn, gan adeiladu ar y sylfeini a osodwyd gennym a sicrhau bod y gwaith hwn yn cyd-fynd â blaenoriaethau ehangach a fframweithiau cyllidol.

**Argymhelliad 21.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gryfhau dealltwriaeth o sut y mae'r diffiniad o wariant ataliol yn cael ei gymhwyso i Gyllidebau yn y dyfodol.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gryfhau dealltwriaeth gyffredin o'r ffordd y caiff gwariant ataliol ei ddiffinio a'i gymhwyso yn ystod proses y gyllideb. Mae'r cydweithrediad hwn yn rhan bwysig o ymgorffori'r pum ffordd o weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ac mae'n sicrhau bod y ffordd rydym yn ymdrin ag atal yn glir, yn gyson ac yn cyd-fynd â chanlyniadau hirdymor.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu yn y fath fodd wrth inni ddatblygu Cyllidebau yn y dyfodol, ac yn ein dull gweithredu parhaus o ran materion cyllidol tymor hwy, gan adeiladu ar y ddeialog adeiladol a'r cyngor a gafwyd hyd yma, a sicrhau bod y diffiniad o wariant ataliol yn cefnogi tryloywder ac yn llywio penderfyniadau ym mhob rhan o'r llywodraeth.

**Argymhelliad 22.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn darparu rhagor o wybodaeth am y dull o feincnodi gwariant ataliol ar draws portffolios, gan gynnwys sut y mae'r gwaith hwn yn cael ei weithredu a sut y bydd canlyniadau'n cael eu mesur, ac yn sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael erbyn y Gyllideb Derfynol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Byddai gwaith i feincnodi gwariant ataliol mewn ffordd ystyrlon, sy'n ychwanegu gwerth yn gymhleth ac yn gofyn am ystyriaeth ofalus er mwyn sicrhau bod diffiniadau, fframweithiau mesur a systemau adrodd yn gadarn ac yn ystyrlon.

Mae egwyddorion ataliol eisoes wedi'u hymgorffori ym mhroses y gyllideb ac wedi'u hadlewyrchu yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol, sy'n nodi sut mae dyraniadau yn cyfrannu at atal a chanlyniadau hirdymor.

Fodd bynnag, mae meincnodi gwariant ataliol ym mhob portffolio yn faes sy'n datblygu a bydd angen iddo ddatblygu ymhellach dros amser.

Ni fyddwn yn gallu rhoi diweddariad ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol. Mae hwn yn faes y byddai angen ei ddatblygu fesul cam, a Llywodraeth yn y dyfodol fydd yn penderfynu a ddylid cyflwyno dull systematig o feincnodi a mesur canlyniadau cysylltiedig, a sut. Rydym yn ymrwymedig o hyd i ystyried opsiynau a pharhau â'r ddeialog â rhanddeiliaid, gan gynnwys Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

**Argymhelliad 23.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiad dadansoddi yn ôl rhywedd ynghylch effaith y Gronfa Cymorth Dewisol ar anghydraddoldeb rhwng y rhywiau ym maes tlodi ac yn darparu diweddariad ar gynnydd yng ngham y Gyllideb Derfynol.

Ymateb: Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithas, y Trefnydd a'r Prif Chwip sy'n gyfrifol am anghydraddoldeb rhwng y rhywiau ym maes tlodi. Rwyf wedi tynnu ei sylw at yr argymhelliad hwn er mwyn iddi ei ystyried.

**Argymhelliad 24.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru:

▪ yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ehangu Cam 3 o'r rhaglen Dechrau'n Deg, a'i heffeithiolrwydd;

▪ yn cynnal gwerthusiad o'r meini prawf cymhwystra ar gyfer y rhaglenni Cynnig Gofal Plant a Dechrau'n Deg er mwyn sicrhau bod y cynlluniau yn parhau i fod yn hygyrch i fenywod sy'n dychwelyd i'r gwaith; ac yn rhoi diweddariad ar gynnydd yng ngham y Gyllideb Derfynol.

Ymateb: Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol sy'n gyfrifol am y rhaglenni Cynnig Gofal Plant a Dechrau'n Deg. Rwyf wedi tynnu ei sylw at yr argymhelliad hwn er mwyn iddi ei ystyried.

**Argymhelliad 25.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio ar y cyd â Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru a Grŵp Cyllideb Menywod Cymru i ymwreiddio cyllidebu ar sail rhywedd ar draws Llywodraeth Cymru ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd erbyn i'r Ail Gyllideb Atodol 2025-26 gael ei gosod ar 24 Chwefror 2026.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ymwreiddio cyllidebu ar sail rhywedd fel rhan o'n gwaith ehangu ar gydraddoldeb ac asesu effaith. Drwy gydol tymor y Senedd hon, rydym wedi gweithio'n helaeth gyda Grŵp Cyllideb Menywod Cymru fel aelod allweddol o'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb. Mae arbenigedd y grŵp hwn wedi llywio'r broses o ddatblygu ein Hasesiad Effaith Integredig Strategol ac wedi cefnogi gwelliannau ynglŷn â sut y caiff ystyriaethau o ran cydraddoldeb eu hintegreiddio ym mhenderfyniadau'r gyllideb. Hefyd, rydym wedi cysylltu â Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru i gryfhau gweithgarwch ymgysylltu a sicrhau bod safbwyntiau o ran rhywedd yn cael eu hadlewyrchu yn y ffordd rydym yn gweithredu.

Mae'r cydweithrediad hwn wedi ein helpu i feithrin gallu a dealltwriaeth ym mhob rhan o'r llywodraeth ac i gysoni ein gwaith ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Byddwn yn parhau â'r gweithgarwch ymgysylltu adeiladol hwn â Grŵp Cyllideb Menywod Cymru a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru wrth inni ddatblygu cyllidebau yn y dyfodol, gan sicrhau bod cyllidebu ar sail rhywedd yn dod yn rhan annatod o'n proses ac yn cyfrannu at fwy o dryloywder a thegwch wrth ddyrannu adnoddau.

**Argymhelliad 26.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddefnyddio Cyfalaf Trafodiadau Ariannol, ynghyd â ffynonellau cyfalaf eraill, i fuddsoddi mewn tai cymdeithasol i roi hwb i'r cyflenwad tai yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn

Erys Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddefnyddio Cyfalaf Trafodiadau Ariannol, yn unol â'r rheolau a'r canllawiau perthnasol, ochr yn ochr â ffrydiau cyllid cyfalaf eraill i gefnogi buddsoddi mewn tai. Rydym yn cydnabod y rôl hollbwysig y gall ymyriadau a ariennir drwy ddefnyddio Cyfalaf Trafodiadau Ariannol ei chwarae o ran cynyddu'r cyflenwad tai yng Nghymru ac yn 2026-27 byddwn yn parhau i wneud y defnydd gorau posibl o'r holl adnoddau sydd ar gael i helpu i ddiwallu'r angen o ran tai.

Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol sy'n gyfrifol am dai cymdeithasol. Rwyf wedi tynnu ei sylw at yr argymhelliad hwn er mwyn iddi ei ystyried.

# 7. Cynhyrchiant

**Argymhelliad 27.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn cynnwys ymrwymiad lefel uchel i dyfu cynhyrchiant yn y Gyllideb Derfynol ac yn datblygu cynllun cynhyrchiant cenedlaethol i gefnogi camau rhagweithiol gan Lywodraeth Cymru yn y maes hwn.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rhennir y cyfrifoldeb am wella cynhyrchiant yn eang ar draws Llywodraeth Cymru, gan gydnabod pwysigrwydd tyfu cynhyrchiant er mwyn gwella safonau byw a gwella a chynyddu'r broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mewn ffordd fwy cynaliadwy. Mae ein Cenhadaeth Economaidd eisoes yn llawn gydnabod pwysigrwydd tyfu cynhyrchiant.

**Argymhelliad 28.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn defnyddio'r chwe argymhelliad craidd a nodir yn y papur mewnwelediad ar gynhyrchiant, a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Cynhyrchiant ym mis Ionawr 2025, fel sylfaen i gynllun cynhyrchiant cenedlaethol yn y dyfodol i ategu twf cynhyrchiant yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithredu ar lawer o'r camau mewn ffordd sy'n gyson ag argymhellion papur y Sefydliad Cynhyrchiant ym mis Ionawr 2025. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r adroddiad a chyfeirio ato wrth inni barhau i weithio i wella cynhyrchiant yng Nghymru.

**Argymhelliad 29.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn egluro'r ystadegau a ddyfynnwyd yn ei dystiolaeth mewn perthynas â pherfformiad cynhyrchiant yng Nghymru rhwng 2009 a 2023, gan gynnwys gwybodaeth am y mesurau a ddefnyddiwyd a'r ffynonellau data.

Ymateb: Derbyn

Rhoddodd Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ar 14 Hydref 2025, fanylion am berfformiad cynhyrchiant yng Nghymru.

O ran yr wybodaeth a roddais yn fy nhystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, gallaf gadarnhau mai twf cynhyrchiant llafur blynyddol (a fesurir yn ôl GYG yr awr a weithir) yng Nghymru rhwng 2022 a 2023 oedd yr uchaf ond un o blith Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a naw rhanbarth Lloegr; a bod cynhyrchiant Cymru (a

fesurir yn ôl GYG yr awr a weithir) rhwng 2009 a 2023, wedi tyfu 14.1% o gymharu â 10.5% ar gyfer y DU.

Daw'r ystadegau hyn o'r ddolen isod:

**Cynhyrchiant llafur rhanbarthol ac is-ranbarthol, y DU - y Swyddfa Ystadegau Gwladol**

**Argymhelliad 30.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn gwneud y canlynol:

▪ darparu gwybodaeth glir am dargedau cynhyrchiant Llywodraeth Cymru,

▪ amlinellu sut y mae'r targedau'n cael eu mesur a'u hasesu, gan gynnwys manylion unrhyw ffynonellau data a ddefnyddir i fonitro a gwerthuso cynnydd, a

▪ egluro pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi datblygu ei chynllun cynaliadwyedd cyllidol ei hun yn unol â'r dulliau a fabwysiadwyd gan lywodraethau'r DU a'r Alban.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor.

Nid oes gan Lywodraeth Cymru darged cynhyrchiant cyffredinol. Fodd bynnag, caiff cynhyrchiant cyffredinol ei asesu a'i fesur fel rhan o'r dangosyddion llesiant. Mae perfformiad cynhyrchiant hefyd yn cael cryn sylw yn Adroddiad Economaidd a Cyllidol Cymru a gyhoeddir yn flynyddol a hefyd yn Adroddiad Llesiant Cymru.

Er mai gwella cynhyrchiant yw nod clir a phenodol Llywodraeth Cymru, a bod polisïau sydd â'r nod o wella cynhyrchiant yn debygol o fod yn rhai o'r polisïau mwyaf effeithiol o ran gwella safonau byw yng Nghymru dros yr hirdymor, mae pennu targedau penodol (i'r economi ac yn y sector cyhoeddus), yn annhebygol o fod o fudd uniongyrchol i gyflawni hyn. Mae Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru yn cynnwys senarios cyllido hirdymor ac adran ar gynaliadwyedd cyllidol hirdymor. Mae'r adran honno yn trafod goblygiadau tueddiadau demograffig a amcanestynnir yng Nghymru a sut maent yn cymharu â thueddiadau yn Lloegr.

**Argymhelliad 31.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn darparu gwybodaeth am sut y mae Llywodraeth Cymru yn gwella cynhyrchiant y sector cyhoeddus drwy ei dyraniadau cyllideb, gan gynnwys manylion am fuddsoddiadau penodol, y canlyniadau a gyflawnwyd, a'r dulliau gwerthuso sydd ar waith i helpu i drawsnewid y broses o ddarparu gwasanaethau.

Ymateb: Derbyn.

Gwnawn hynny drwy ymgorffori gwelliannau mewn cynhyrchiant mewn meysydd polisi, gan gydnabod bod ffactorau strwythurol dwfn megis sgiliau, seilwaith a phatrymau buddsoddi, a fydd yn datblygu dros yr hirdymor, yn dylanwadu ar gynhyrchiant. Mae gwelliannau mewn cynhyrchiant yn allweddol i ddarparu gwasanaethau'r GIG ac yn ddiweddar rydym wedi gweld targedau cynhyrchiant ac effeithlonrwydd mewn gofal a gynlluniwyd yn cael eu datblygu yn dilyn adroddiad Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar GIG Cymru.

Mae datblygu sgiliau a'r gweithlu yn un o benderfynyddion craidd cynhyrchiant, a bydd y dyraniad ychwanegol o £5m yn y Gyllideb Derfynol ar gyfer rhaglenni prentisiaeth yn cynyddu'r ddarpariaeth ymhellach er mwyn gwella sgiliau i bobl ifanc a'u helpu i ddod o hyd i waith.

Cyhoeddwyd Cynllun Cyllid Seilwaith penodol ar y cyd â'r Gyllideb Ddrafft a oedd yn nodi ymrwymiadau strategol i dai, ysgolion, ac adeiladau diwylliannol mwy effeithlon yn ogystal â blaenoriaethu cysylltedd digidol a chysyllltiadau trafnidiaeth sy'n sail i dyfu cynhyrchiant. Cyhoeddwyd £20m ychwanegol o gyllid cyfalaf yn y Gyllideb Derfynol er mwyn cyflymu ein Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy lwyddiannus sy'n darparu adeiladau modern, addas at y diben sydd â chostau gweithredu is.

**Argymhelliad 32.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn gwneud y canlynol:

- yn nodi sut y mae'r gyllideb yn cefnogi'r sector cyhoeddus i fabwysiadu Deallusrwydd Artiffisial ac awtomeiddio i wella cynhyrchiant, gan gynnwys sut y mae'r dyraniadau hyn yn adlewyrchu cynllun newydd Llywodraeth Cymru i ymgorffori manteision technoleg ledled Cymru; ac
- yn annog datblygu strategaeth gyffredinol o ran TG ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru ochr yn ochr â hyn.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae'r Strategaeth Ddigidol i Gymru yn amlinellu gweledigaeth o wella bywydau pawb yng Nghymru drwy gydweithio ac arloesedd, gan arwain at ddarparu gwell gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Cynllun AI i Gymru yn cefnogi hyn drwy ymrwymiad i harneisio pŵer trawsnewidiol deallusrwydd artiffisial i ddatgloi twf economaidd, gwella gwasanaethau cyhoeddus yn Gymraeg ac yn Saesneg, a dysgu'r sgiliau i bobl yng Nghymru a fydd yn eu galluogi i ffynnu yn ein byd llawn newid.

Yn y Gyllideb Ddrafft, dyrannwyd cyllid o £7.075 miliwn i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Strategaeth Ddigidol i Gymru er mwyn cefnogi gwaith y

Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol ar arweinyddiaeth draws-sector, safonau gwasanaethau digidol, galluogrwydd a gwella gwasanaethau, y Swyddfa dros IA a chyfres o fentrau i gefnogi proses o roi deallusrwydd artiffisial ar waith mewn ffordd gyfrifol yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru.

Mae deallusrwydd artiffisial yn ailffurfio'r byd modern yn gyflym ac mae'n creu heriau i sectorau a chymdeithas yn ei chyfanrwydd. Yn Llywodraeth Cymru, mae'r cyfrifoldeb am ddigidol, deallusrwydd artiffisial a data a ysgogir gan dechnolegau yn drawsbynciol ac yn rhan o bob portffolio Gweinidogol. Er mwyn rhoi hwb i gynhyrchiant ac effeithlonrwydd gwasanaethau cyhoeddus, bydd pob portffolio yn cynnwys ystyriaethau digidol a deallusrwydd artiffisial wrth ddatblygu polisïau, gwneud penderfyniadau buddsoddi a gweithgareddau cyflawni. Llywodraeth nesaf Cymru fydd yn gyfrifol am benderfynu ar y blaenoriaethau a'r buddsoddiad cysylltiedig yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y gallai fframwaith TG ar gyfer buddsoddi yn y sector cyhoeddus yng Nghymru fod yn werthfawr er mwyn helpu i bennu cyfeiriad strategol a disgwyliadau yn seiliedig ar dueddiadau o ran technoleg sy'n dod i'r golwg, cefnogi safonau cyson a sicrhau gwerth am arian drwy gaffael effeithiol. Dylai pob sefydliad yn y sector cyhoeddus yng Nghymru fod wedi llunio ei strategaethau TG ei hun eisoes, sy'n cysoni anghenion technoleg ag amcanion busnes cyffredinol, gan gwmpasu popeth o seilwaith a meddalwedd i seiberddiogelwch a thrawsnewid digidol. Bydd hyn yn helpu i sbarduno cynhyrchiant ac effeithlonrwydd, yn cynnig map ffordd ar gyfer buddsoddiadau technoleg, rhoi technoleg ar waith, a galluogi arloesedd.

**Argymhelliad 33.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i wella llythrennedd cynhyrchiant o fewn y llywodraeth ac ar draws y sector preifat yng Nghymru, er mwyn cryfhau dealltwriaeth o gynhyrchiant a sbarduno twf economaidd hirdymor.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd nifer o gamau o ran ymgysylltu sefydliadol a'r fframweithiau dadansoddol y mae'n eu llunio i wella llythrennedd cynhyrchiant o fewn y llywodraeth a'r sector preifat yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cyfarfod â rhanddeiliaid allanol, cynnull arbenigwyr a chyhoeddi nifer o adroddiadau sy'n esbonio pwysigrwydd cynhyrchiant, sut mae arni yng Nghymru a'r hyn y gellir ei wneud i'w wella.